GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Dyfodol Clinigol Clinical Futures

# Gwybodaeth ddiweddaraf am Ddyfodol Clinigol
# Clinical Futures Update



*Newyddion i'ch cymuned* *News for your Community* **05/11/2020**

## Diweddariadau i chi a'ch cymuned

Dyma'r trydydd mewn cyfres o gylchlythyrau, y byddwn yn eu darparu i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid lleol ynghylch ein rhaglen Dyfodol Clinigol a'r cynnydd yr ydym yn ei wneud gydag agoriad Ysbyty Athrofaol y Faenor. Byddwn yn anfon y diweddariadau hyn atoch ddwywaith y mis wrth i ni agosau at agoriad cynnar Ysbyty Athrofaol y Faenor ganol mis Tachwedd 2020, sydd ychydig wythnosau i ffwrdd yn unig bellach. Byddwn hefyd yn defnyddio'r cylchlythyr hwn ar ôl yr agoriad i'ch diweddaru wrth i ni roi ein Rhaglen Dyfodol Clinigol ar waith a pharhau i wneud newidiadau arfaethedig i'n system ehangach o wasanaethau ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

Mewn cylchlythyrau blaenorol, bu i ni siarad am Ysbyty Athrofaol y Faenor a hefyd beth fyddai'r newidiadau hyn yn eu golygu i Ysbyty Nevill Hall. Yn y briff hwn, rydym yn canolbwyntio ar **Ysbyty Brenhinol Gwent** a sut mae'r ffordd yr ydym yn darparu gofal iechyd a gwasanaethau yn newid. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at y cynnydd gyda'n trefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu, wrth i'r pamffled Bwrdd Iechyd ddechrau cyrraedd pob aelwyd yn ein hardal yn ystod yr wythnos.

## Yn gyntaf - Nodyn i'ch atgoffa am y Rhaglen Dyfodol Clinigol

Dyfodol Clinigol yw cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cynaliadwy ar draws ardal Gwent a hefyd ar gyfer gwasanaethau a ddarparwn ar gyfer pobl De Powys. Ein nod yw darparu gofal diogel o ansawdd uchel a darparu cymaint o hyn yn y cartref, neu mor agos i'r cartref â phosibl a hefyd drwy ein rhwydwaith o wasanaethau a gofal yn yr ysbyty a'r gymuned.

Dyfodol Clinigol Clinical Futures

Rydym eisoes wedi gwneud rhai newidiadau mawr i'r ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau - ac efallai eich bod eisoes wedi gweld ein bod wedi bod yn darparu gofal iechyd mewn gwahanol ffyrdd, yn un o'n cyfleusterau newydd neu yn y gymuned. Rydym yn ceisio sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd popeth a wnawn a phob penderfyniad a wnawn drwy gydol y newidiadau hyn.

**Beth fydd y Newidiadau Dyfodol Clinigol yn eu golygu i Ysbyty Brenhinol Gwent a'r gwasanaethau a ddarperir ar y safle hwn**



Bydd Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd yn parhau i ddarparu gofal o'r radd flaenaf i drigolion Gwent a De Powys pan fydd Ysbyty Athrofaol y Faenor yn agor ar 17 Tachwedd 2020. Bydd yn darparu ystod eang o wasanaethau ac yn canolbwyntio ar ddarparu gofal cyffredinol ac arferol. Ymhlith yr ystod o wasanaethau a ddarperir yn Ysbyty Brenhinol Gwent fydd:

- Llawdriniaethau sydd wedi'u cynllunio a gofal ar ôl i chi gael anaesthetig cyffredinol
- Gwasanaethau adsefydlu a therapi - gwasanaethau megis ffisiotherapi a therapi lleferydd ac iaith
- Gwasanaethau diagnostig - asesiadau, sganiau a delweddau Pelydr-X sydd eu hangen ar gyfer archwiliadau gan gynnwys sganiau MRI a CT
- Uned Asesu Feddygol
- Uned Mân Anafiadau 24/7 dan arweiniad nyrsys
- Gwasanaethau Canser
- Amrywiaeth eang o glinigau arbenigol ar gyfer cleifion allanol
- Gofal Eiddilwch ar gyfer pobl hŷn
- Dros 371 o welyau ar gyfer cleifion mewnol
- Apwyntiadau cleifion allanol i blant
- Gofal cynenedigol ac ôl-enedigol a chanolfan eni dan arweiniad bydwragedd

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y gwasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Gwent ynghyd â'n hysbytai eraill yn yr ardal Bwrdd Iechyd ar gael mewn cyfres o daflenni gwybodaeth ar dudalennau gwe'r Bwrdd Iechyd drwy'r ddolen ganlynol: https://bipab.gig.cymru/dyfodol-clinigol

**Diweddariad ar Gyfathrebu ac Ymgysylltu:**

Gydag ychydig **dros bythefnos** i fynd tan mae'r ysbyty newydd yn agor, nod yr wybodaeth isod yw rhoi'r diweddaraf i chi ynglŷn â'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran trefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu ar draws ein cymunedau.




**Llyfryn Gwybodaeth i bob aelwyd yng Ngwent yn cael eu hanfon nawr!**

Rydym wedi cynhyrchu llyfryn gwybodaeth i'w anfon i bob cartref yng Ngwent cyn i Ysbyty Athrofaol y Faenor agor. Mae'n hysbysu pobl o'r newidiadau i'n gwasanaethau ac yn egluro sut y byddant yn cael mynediad at ofal yn y dyfodol. Mae'r llyfryn yn dechrau cyrraedd aelwydydd ledled Gwent nawr, gyda'r danfoniadau yn dechrau o 2 Tachwedd. Mae copi electronig eisoes ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd yn https://bipab.gig.cymru/ffeiliau/clinical-futures/clinical-futures-booklet-cymraeg/

Yn yr wythnosau diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn datblygu ein trefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu ymhellach. Ymhlith rhai o'r datblygiadau mae:


- Pecynnau pamffled/poster wedi'u hanfon i'n Fferyllfeydd a Meddygfeydd Meddygon Teulu ledled yr ardal Bwrdd Iechyd
- Mae fersiwn hawdd ei darllen o'r llyfryn uchod ar gael bellach. Cefnogwyd y datblygiad hwn gan Brosiect Cyngor Anabledd Cymru, ac mae fersiynau hawdd eu darllen yn Gymraeg a Saesneg wedi cael eu lan lwytho i'n gwefan.
- Mae fersiynau clywedol a PDF o'r llyfryn mewn naw iaith wahanol bellach ar gael hefyd ar y wefan - cadwch lygad am y fersiynau ychwanegol hyn sy'n cefnogi ein cymunedau amrywiol.
- Mae ein hymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol wedi dwysáu wrth i agoriad Ysbyty Athrofaol y Faenor nesáu, ac mae cyfres o luniau yn cael eu rhannu i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys datblygu cyfres o luniau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i'n partneriaid Gofal Sylfaenol i gefnogi eu gwaith codi ymwybyddiaeth.
- Mae baneri a phosteri hyrwyddo bellach i fyny yn ein hysbytai, fferyllfeydd lleol ac archfarchnadoedd mawr ledled Gwent. Rydym hefyd yn rhannu negeseuon allweddol drwy hysbysiadau mewnol ac allanol ar fysiau ar lwybrau ledled Gwent.
- Mae pamffled dwyieithog arbennig yn canolbwyntio ar newidiadau i wasanaethau ar gyfer plant a merched beichiog wedi cael ei gynhyrchu ac mae 6,500 o bamffledi yn cael eu cynnwys mewn llyfrau cofnod iechyd babanod coch.
- Bydd pamffledi i Blant/Merched Beichiog hefyd yn cael eu dosbarthu drwy'r Uned Asesu Plant yn Ysbyty Brenhinol Gwent a'r Uned Bediatrig yn Ysbyty Nevill Hall.
- Mae pecynnau pamffled i Glinigau Cleifion Allanol yn cael eu cynhyrchu i dargedu cleifion risg uchel gyda chyflyrau sydd eisoes yn bodoli (y rheiny sy'n fwy tebygol o ddefnyddio'r gwasanaethau iechyd a chael eu heffeithio gan y newidiadau).

**100,000 o Ddilynwyr Facebook!**

Rydym wedi gwirioni o fod wedi cyrraedd 100,000 o ddilynwyr ar dudalen Facebook cyfrwng Saesneg ein Bwrdd Iechyd! Diolch i chi fel ein partneriaid am helpu i rannu negeseuon pwysig ledled Gwent. Helpwch ni i gyrraedd cymaint o bobl ag sy'n bosib drwy rannu ein tudalen a negeseuon gyda'ch ffrindiau a'ch teulu. Gallwch hefyd ddilyn ni ar Twitter ac Instagram yn @bipaneurinbevan




**Arwyddion Ffyrdd i'n Hysbytai**





Pan fydd Ysbyty Athrofaol y Faenor yn agor ar 17 Tachwedd 2020, bydd yr arwyddion ffyrdd sy'n cyfeirio pobl i'n hysbytai yn newid. Bydd arwyddion 'Ysbyty Damweiniau ac Achosion Brys' yn cyfeirio pobl i Ysbyty Athrofaol newydd y Faenor gan mai hon fydd yr unig Adran Achosion Brys yn ardal Gwent.

Byddwch yn gweld arwyddion i'r 'Uned Mân Anafiadau' yn disodli arwyddion presennol ar ffyrdd o amgylch ein Hysbytai Cyffredinol Lleol gwell - Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill

Hall, ac Ysbyty Ystrad Fawr. Mae arwyddion Uned Mân Anafiadau yn parhau i gyfeirio pobl i Ysbyty Aneurin Bevan.

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019/2020




Yn y cylchlythyr diweddaf, crybwyllasom ar ddydd Mercher 28 Hydref, fod y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar gyfer 2019/2020.

Eleni roedd yn Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol mymryn yn wahanol! Cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i ddarparu trosolwg o'n gwaith fel sefydliad yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac fel rheol fe'i cynhelir o flaen cynulleidfa o gynrychiolwyr sefydliadau partner a phobl leol. Fodd bynnag, eleni o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19, cyfarfu'r Bwrdd Iechyd yn rhithiol a chafodd y cyfarfod ei ffrydio'n fyw drwy ein sianel YouTube. Fodd bynnag, ymunodd cynrychiolwyr o Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan â'r Bwrdd yn uniongyrchol yn ei gyfarfod.

Agorodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gydag Ann Lloyd, Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, yn cydnabod y cyfnod eithriadol, na welwyd o'r blaen yr oedd y Bwrdd Iechyd yn gweithredu ynddo. Diolchodd hefyd i'n holl staff a gwirfoddolwyr am eu gwaith arbennig, eu hymroddiad a phroffesiynoldeb yn parhau i gadw ein cleifion a'n defnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel a darparu gwasanaethau o safon uchel. Ategwyd y diolchiadau hyn gan Judith Paget, y Prif Weithredwr, a gyflwynodd Adroddiad Blynyddol y sefydliad ar gyfer 2019/2020, Glyn Jones, Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad, a amlinellodd sefyllfa ariannol a Chyfrifon Blynyddol y Bwrdd, ac yn olaf Rhiannon Jones, ein Cyfarwyddwr Nyrsio, a ddarparodd drosolwg o Ddatganiad Ansawdd Blynyddol y Bwrdd Iechyd.

Os hoffech weld y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, mae ar gael o hyd ar sianel YouTube y Bwrdd Iechyd drwy'r ddolen ganlynol: https://youtu.be/YnAPP9uC0Iw

Gallwch hefyd ddarllen y dogfennau a grybwyllwyd uchod ar dudalennau gwe'r Bwrdd Iechyd drwy'r ddolen hon: https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/

### Am ragor o wybodaeth...

Os hoffech unrhyw wybodaeth ychwanegol neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni drwy ABHB.enquiries@wales.nhs.uk

Mae ein cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol a'n gwefan Bwrdd Iechyd yn cael eu diweddaru'n barhaus gyda'r wybodaeth ddiweddaraf, felly cadwch lygad am y diweddariadau ar-lein hyn a'u rhannu gydag eraill yn eich cymuned. Dilynwch ni ar:

| | | |
|---|---|---|
| @BwrddIechydAneurinBevan | @BIPAneurinBevan | @BIPAneurinBevan |